# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 15 Medi 2026 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dewi Jones |
| **Swyddog Cyswllt:** | Gwern ap Rhisiart – Pennaeth Addysg |
| **Teitl yr Eitem:** | Ysgol Nebo – Adroddiad Gwrthwynebu |

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

---

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Gofynnir i'r Cabinet ystyried yr Adroddiad Gwrthwynebu, y crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, a'r ymatebion a roddwyd i'r gwrthwynebiadau hynny, ac wedi gwneud hynny, gadarnhau'n derfynol y cynnig a roddwyd drwy hysbysiad statudol i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen, yn unol ag Adran 53 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno i'r Cabinet adroddiad ar y cyfnod gwrthwynebu statudol a gynhaliwyd yn dilyn cyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen.

2.2 Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol ar 3 Mehefin 2026, gan gychwyn cyfnod gwrthwynebu statudol. Daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 30 Mehefin 2026. Derbyniwyd 20 gwrthwynebiad yn ystod y cyfnod hwn. Yn ogystal, cyflwynwyd deiseb gan Gorff Llywodraethol Ysgol Nebo yn gwrthwynebu'r cynnig, gyda 358 llofnod yn cefnogi'r ddeiseb.

2.3 Yn sgil derbyn gwrthwynebiadau statudol, paratowyd Adroddiad Gwrthwynebu yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Gofynnir i'r Cabinet ystyried yr Adroddiad Gwrthwynebu, y crynodeb o'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd, ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau hynny, a'r holl wybodaeth berthnasol arall, cyn penderfynu a ddylid cadarnhau'r cynnig yn derfynol ai peidio.

### 3. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

3.1 Cyflwynwyd adroddiad gerbron y Cabinet ar 11 Chwefror 2025, a phenderfynwyd rhoi caniatâd i'r Adran Addysg gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda Chorff Llywodraethol Ysgol Nebo a budd-ddeiliaid perthnasol eraill ynghylch opsiynau posibl ar gyfer dyfodol yr ysgol, yng nghyd-destun y niferoedd isel o ddysgwyr sy'n mynychu'r ysgol a'r pryderon ynghylch ei chynaliadwyedd hirdymor.

3.2 Yn dilyn y trafodaethau hyn a'r gwaith gwerthuso a gynhaliwyd, cyflwynwyd adroddiad pellach i'r Cabinet ar 14 Hydref 2025, lle cymeradwywyd y penderfyniad i gychwyn cyfnod o ymgynghori statudol, yn unol ag Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i'r dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen.

3.3 Roedd yr adroddiad hwn yn amlinellu'r prif heriau sy'n wynebu'r ysgol. Roedd y rhain yn cynnwys niferoedd isel o ddysgwyr dros gyfnod estynedig, canran uchel o leoedd gwag, a'r her o sicrhau cynaliadwyedd addysgol ac ariannol y ddarpariaeth yn y tymor hwy. Nodwyd hefyd fod y sefyllfa ddemograffig leol a'r rhagolygon ar gyfer niferoedd dysgwyr yn y dyfodol wedi'u hystyried fel rhan o'r broses o werthuso'r opsiynau ar gyfer dyfodol yr ysgol.

3.4 Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r niferoedd dysgwyr isel yn golygu bod Ysgol Nebo mewn sefyllfa fregus ac yn wynebu heriau cynyddol niferus, gan gynnwys:

- **Niferoedd isel o ddysgwyr** – Dengys data Ionawr 2026, fod 11 dysgwr Derbyn – Blwyddyn 6 ac 1 dysgwr meithrin yn mynychu Ysgol Nebo. Ers CYBLD Ionawr 2026, mae'r niferoedd wedi gostwng ymhellach, ac erbyn hyn (Medi 2026), dim ond 6 o ddysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6 ac 1 dysgwr Meithrin sydd ar gofrestr yr ysgol. Noder fod yr adroddiad hwn yn defnyddio data CYBLD Ionawr 2026 fel sail ar gyfer y dadansoddiad a'r cymariaethau, er mwyn sicrhau cysondeb drwy'r ddogfen.
- **Canran uchel o lefydd gweigion** – Gydag 11 o ddysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6 ar gofrestr yr ysgol, a chapasiti o 51, mae 40 o lefydd gweigion yn yr ysgol, sef cyfwerth a 78% o gapasiti'r ysgol. Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 7 dysgwr yn y dosbarth Meithrin yn ogystal, felly gydag 1 dysgwr meithrin ar y gofrestr, mae 6 o lefydd gweigion yn y meithrin yn ogystal.
- **Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang –**Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo gyda 5 dysgwr (Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth. Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 i Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Felly mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a hyd at 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth.
- **Rhagamcanion niferoedd** – Mae rhagamcanion Medi 2025 yn awgrymu y bydd niferoedd dysgwyr yn parhau'n isel dros y dair mlynedd nesaf, gyda rhagamcan o 10 dysgwr Derbyn i Blwyddyn 6 a 2 ddysgwr Meithrin ar y gofrestr erbyn Medi 2028.
- **Dysgwyr y dalgylch –** Dengys data Ionawr 2026 fod 9 o blant yn byw yn nalgylch Ysgol Nebo. O'r rhain, mae 22% (2 blentyn) yn dewis mynychu Ysgol Nebo, tra bod 78% (7 o blant) yn dewis mynychu ysgolion y tu allan i'r dalgylch.
- **Ysgol Nebo yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad cyllidol craidd –** Mae Ysgol Nebo yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr llawn amser). Cyfanswm y swm ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol 2026-27 (seiliedig ar niferoedd Medi 2025) yw £64,046.
- **Cyfartaledd cost fesul dysgwr –** Cyfartaledd cost fesul dysgwr yn Ysgol Nebo yn y flwyddyn ariannol 2026-27 yw £16,066 o gymharu â'r cyfartaledd sirol o £5,998.

## 4. YR YMGYNGHORIAD STATUDOL

4.1 Yn dilyn penderfyniad y Cabinet ar 14 Hydref 2025, cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 5 Rhagfyr 2025 a 23 Ionawr 2026, gan sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

4.2 Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori statudol, pecyn asesiadau effaith (gan gynnwys asesiadau effaith ar yr iaith Gymraeg, y gymuned, cydraddoldeb, gwahanol drefniadau teithio, ansawdd a safonau addysg a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol), pecyn cefndirol, ffurflenni ymateb a dogfen ymgynghori a holiaduron ar gyfer plant a phobl ifanc ar wefan y Cyngor. Dosbarthwyd y ddogfennaeth i'r holl ymgynghorai perthnasol drwy e-bost oedd yn cynnwys dolen at dudalen benodol ar wefan y Cyngor Ymgynghoriad Statudol: Ysgol Nebo, a darparwyd copïau caled ar gais.

4.3 Gwahoddwyd ymgynghorai i gyflwyno sylwadau drwy lenwi ffurflen ymateb ar-lein, copi papur neu electroneg (PDF), neu drwy e-bost/llythyr.

4.4 Cynhaliwyd sesiwn galw heibio yn ystod y cyfnod ymgynghori ar gyfer staff, rhieni a llywodraethwyr Ysgol Nebo. Pwrpas y sesiwn oedd i rannu gwybodaeth am y cynnig a'r broses ymgynghori, a rhoi cyfle i'r rhanddeiliaid ofyn cwestiynau am y cynnig neu'r broses. Mynychodd 12 o bobl y sesiwn galw heibio.

4.5 Trefnwyd sesiynau ymgynghori ar wahân ar gyfer cynrychiolaeth o ddysgwyr Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni, gyda hwylusydd annibynnol yn cynnal y sesiynau. Pwrpas y sesiynau hyn oedd i gasglu barn y dysgwyr am y cynnig. Roedd fersiwn addas i blant a phobl ifanc o'r ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor i sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfle i gyfrannu, hyd yn oed os nad oeddent wedi mynychu'r sesiwn yn eu hysgol. Ceir crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc yn adran 3 o'r Adroddiad Ymgynghori, a gyhoeddwyd ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg .

4.6 **Ymatebion i'r Ymgynghoriad**

4.7 Derbyniwyd cyfanswm o 70 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad statudol, gan gynnwys ymateb gan Estyn. Roedd y sylwadau a dderbyniwyd yn manylu ar y materion a ganlyn:

- Gwrthwynebiadau i'r cynnig i gau Ysgol Nebo
- Sylwadau am Ysgol Nebo
- Gwerth addysgol ysgol fach wledig
- Sylwadau o blaid y cynnig
- Effaith ar lesiant a phrofiad addysgol dysgwyr
- Effaith ar y gymuned
- Effaith ar yr iaith Gymraeg
- Cludiant a theithio
- Y broses statudol
- Sylwadau am Ysgol Llanllyfni
- Effaith ar staff
- Addysg Gartref
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Sylwadau trawsbynciol
- Opsiynau amgen

4.8 **Adroddiad Ymgynghori**

4.9 Yn dilyn diwedd y cyfnod ymgynghori, paratowyd Adroddiad Ymgynghori yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd ac ymateb y Cyngor iddynt.

4.10 Cyflwynwyd yr Adroddiad Ymgynghori gerbron y Cabinet ar 19 Mai 2026, a bu i'r Cabinet ystyried y sylwadau a'r opsiynau amgen a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae'r Adroddiad Ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor: www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg

4.11 Yn dilyn ystyriaeth o'r wybodaeth berthnasol, penderfynodd y Cabinet gymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen, yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, gan gychwyn y cyfnod gwrthwynebu statudol lle gall unrhyw unigolyn wrthwynebu'r cynnig o fewn 28 diwrnod i ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad.

4.12 **Opsiynau amgen eraill a awgrymwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol**

4.13 Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 yn nodi y gall ymgynghorai awgrymu opsiynau amgen eraill yn ogystal â sylwadau ar y cynnig penodol yn ystod yr ymgynghoriad statudol.

4.14 Cynigiwyd nifer o opsiynau amgen yn ystod yr ymgynghoriad. Roedd nifer o'r ymatebion yn awgrymu mabwysiadu cynnig y Corff Llywodraethol i ddatblygu Ysgol Nebo fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys dysgwyr â Chynllun Datblygu

Unigol ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, ynghyd â dysgwyr eraill ag anghenion iechyd meddwl, gan gynnwys pryder a niwroamrywiaeth.

4.15 Ystyriwyd cynnig y Corff Llywodraethol, ynghyd â'r opsiynau amgen eraill a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad, fel rhan o'r gwerthusiad opsiynau a gynhaliwyd gan y Cyngor. Fodd bynnag, yn dilyn gwerthuso'r opsiynau hyn, daethpwyd i'r casgliad nad oedd yr opsiwn hwn na'r opsiynau amgen eraill, gan gynnwys ffederaleiddio, yn ymateb i'r heriau sydd yn wynebu'r ysgol a nodwyd ym mharagraff 3.4 uchod. O ganlyniad, ni ystyriwyd bod yr opsiynau hyn yn darparu datrysiad cynaliadwy i'r ddarpariaeth addysgol yn y tymor hir.

4.16 Daethpwyd felly i'r casgliad mai'r cynnig i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lleoedd i'r dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen oedd yn parhau i fod yr opsiwn mwyaf priodol i ymateb i'r heriau a nodwyd. Ceir manylion pellach am yr opsiynau a ystyriwyd a'r rhesymau dros y casgliadau hyn yn Adran 6 ac Adran 7 yr Adroddiad Ymgynghori, ynghyd â'r gwerthusiad opsiynau a gyhoeddwyd fel rhan o'r broses statudol. Mae'r Adroddiad Ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor: www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg

## 5. CYFNOD GWRTHWYNEBU STATUDOL

5.1 Yn unol â phenderfyniad Cabinet Cyngor Gwynedd ar 19 Mai 2026, cyhoeddwyd hysbysiad statudol, yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, gan gychwyn cyfnod gwrthwynebu statudol o 28 diwrnod ar y cynnig i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen.

5.2 Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol ar 3 Mehefin 2026 a'i osod wrth brif fynedfa Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Cyhoeddwyd yr hysbysiad hefyd ar wefan y Cyngor a dosbarthwyd copïau electronig i'r ymgyngoreion a'r rhanddeiliaid perthnasol sy'n ofynnol o dan y Cod. Derbyniodd y partïon perthnasol hysbysiad o'r cyfnod a'r drefn gwrthwynebu, a gwnaethpwyd yn glir yn yr hysbysiad fod modd i unrhyw unigolyn wrthwynebu'r cynnig a sut yr oedd modd gwneud hynny. Mae copi o'r hysbysiad statudol a'r dogfennau cysylltiedig ar gael ar wefan y Cyngor: www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg

5.3 Daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 30 Mehefin 2026. Derbyniwyd 20 gwrthwynebiad yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

5.4 Yn ogystal, derbyniwyd deiseb gan Gorff Llywodraethol Ysgol Nebo yn gwrthwynebu'r cynnig, gyda 358 o lofnodion. Galwodd y ddeiseb ar y Cyngor i ailystyried y cynnig i gau'r ysgol ac i roi ystyriaeth lawn i gynnig amgen y Corff Llywodraethol, sef cadw'r ysgol ar agor fel ysgol brif ffrwd a datblygu darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol a dysgwyr y mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt. Cyfeiriwyd hefyd at rôl yr ysgol fel rhan bwysig o'r gymuned leol, ei chyfraniad i gynnal yr iaith Gymraeg, a phryderon am effaith cau'r ysgol ar y gymuned a'i dyfodol.

5.5 Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i'r Cabinet ystyried Adroddiad Gwrthwynebu sy'n crynhoi'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd ac ymateb y Cyngor iddynt cyn gwneud penderfyniad terfynol ar y cynnig. Mae'r Adroddiad Gwrthwynebu, sydd wedi'i atodi fel Atodiad 1, yn crynhoi'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd ac yn nodi ymateb y Cyngor i'r materion a godwyd.

5.6 **Trosolwg o'r Gwrthwynebiadau a Dderbyniwyd**

5.7 Darperir isod drosolwg lefel uchel o'r prif themâu a godwyd gan wrthwynebwyr.

5.8 Roedd y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn codi nifer o faterion mewn perthynas â'r cynnig. Ymhlith y prif themâu a godwyd roedd darpariaeth bresennol Ysgol Nebo a'i rôl wrth ddiwallu anghenion dysgwyr sydd angen

cefnogaeth ychwanegol; galwadau am ystyriaeth lawn i gynnig amgen Corff Llywodraethol Ysgol Nebo; effaith y cynnig ar les a phrofiad dysgwyr; effaith y cynnig ar y Gymraeg a'r gymuned; effaith y cynnig ar y gymuned leol; heriau i'r broses statudol a'r broses benderfynu; materion ariannol a chynllunio strategol; ystyriaethau strategol a pholisi ehangach; ôl-ddefnydd adeilad a safle Ysgol Nebo; a gwrthwynebiad i'r cynnig a galwadau i ailystyried y penderfyniad.

5.9 Roedd nifer o'r gwrthwynebiadau yn mynegi pryder ynghylch effaith bosibl y cynnig ar les a phrofiad dysgwyr, darpariaeth ar gyfer plant sydd angen cefnogaeth ychwanegol, y Gymraeg fel iaith gymunedol fyw, a rôl Ysgol Nebo ym mywyd cymdeithasol a chymunedol yr ardal. Codwyd hefyd faterion yn ymwneud â dyfodol ysgolion gwledig, trefniadau derbyn, cynllunio strategol, materion ariannol a dyfodol adeilad a safle'r ysgol.

5.10 Roedd nifer o wrthwynebwyr hefyd yn galw ar y Cyngor i ailystyried y cynnig ac i roi ystyriaeth bellach i'r cynnig amgen a gyflwynwyd gan Gorff Llywodraethol Ysgol Nebo, sef *"Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys dysgwyr gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth."*

5.11 Er mwyn cyflwyno'r gwrthwynebiadau mewn modd strwythuredig, mae'r materion a godwyd wedi'u grwpio yn yr Adroddiad Gwrthwynebu o dan ddeg thema ac amrywiaeth o is-themâu. Mae'r themâu hynny wedi'u rhestru isod. Mae'r Adroddiad Gwrthwynebu yn cynnwys crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol a dderbyniwyd ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau hynny.

5.12 Mae'r Adroddiad Gwrthwynebu yn trefnu'r materion a godwyd o dan y themâu a'r is-themâu canlynol:

**Thema 1: Darpariaeth bresennol Ysgol Nebo a'i rôl wrth ddiwallu anghenion dysgwyr sydd angen cefnogaeth ychwanegol**

1.1 Rôl Ysgol Nebo wrth gefnogi plant sy'n ei chael yn heriol mewn ysgolion prif ffrwd mwy
1.2 Potensial Ysgol Nebo i ddarparu amgylchedd dysgu personol a meithringar i ddysgwyr sydd angen cefnogaeth ychwanegol
1.3 Pryderon ynghylch gwneud penderfyniad cyn cael darlun llawn o anghenion dysgwyr, y pwysau ar ddarpariaeth ADY a chynnwys yr Adroddiad ADY i'w gyhoeddi ym mis Medi 2026
1.4 Manteision dosbarthiadau llai a chefnogaeth unigol i ddysgwyr ag ADY neu sydd angen cymorth ychwanegol
1.5 Cynllunio strategol a chapasiti hirdymor darpariaeth ADY yng Ngwynedd

**Thema 2: Galwadau am ystyriaeth lawn i opsiwn amgen Corff Llywodraethol Ysgol Nebo**

2.1 Galwad i ailystyried opsiwn amgen Corff Llywodraethol Ysgol Nebo mewn modd agored a chynhwysfawr. "Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys dysgwyr gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth."
2.2 Cefnogaeth i'r opsiwn i ddatblygu Ysgol Nebo fel darpariaeth feithringar ac arbenigol i gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol
2.3 Ysgol Nebo fel prosiect peilot arloesol i gefnogi dysgwyr a hwyluso dychweliad i addysg brif ffrwd Gymraeg
2.4 Manteision posibl yr opsiwn amgen o ran denu dysgwyr a chefnogi'r Gymraeg yn y gymuned
2.5 Pryderon ynghylch ystyriaeth o opsiynau amgen a galwad i ohirio'r penderfyniad hyd nes cyhoeddi'r Adroddiad ADY

**Thema 3: Effaith ar les, profiad addysgol a threfniadau teithio dysgwyr**

3.1 Effaith cau'r ysgol ar les a phrofiad dysgwyr
3.2 Manteision ysgol fach a chymorth unigol
3.3 Effaith teithio a throsglwyddo ar les a chefnogaeth dysgwyr
3.4 Pryderon ynghylch capasiti ysgolion cyfagos ac effaith bosibl ar les a datblygiad dysgwyr

**Thema 4: Effaith y cynnig ar y Gymraeg a'i chynaliadwyedd yn y gymuned**

4.1 Rôl Ysgol Nebo wrth gynnal y Gymraeg fel iaith fyw yn y gymuned
4.2 Pryderon ynghylch effaith cau'r ysgol ar y Gymraeg fel iaith fyw yn y gymuned
4.3 Pryderon bod y cynnig yn groes i amcanion Cymraeg 2050 ac ymrwymiadau'r Cyngor i ddiogelu'r Gymraeg
4.4 Effaith bosibl cau'r ysgol ar deuluoedd ifanc a'r Gymraeg

**Thema 5: Effaith y Cynnig ar y Gymuned Leol**

5.1 Pryderon ynghylch colli Ysgol Nebo fel calon y gymuned ac effaith gymdeithasol, ddiwylliannol ac ieithyddol ei chau
5.2 Pryderon ynghylch colli'r ysgol fel gofod ar gyfer gweithgareddau, gwirfoddoli a gwasanaethau cymunedol
5.3 Pryderon ynghylch effaith cau'r ysgol ar hyfywedd hirdymor y pentref a dyfodol y gymuned wledig
5.4 Pryderon ynghylch effaith cau'r ysgol ar les, cynhwysiant cymdeithasol a chynaliadwyedd y gymuned
5.5 Pryderon ynghylch dibynnu ar gyfleusterau yn Llanllyfni fel mesur lliniaru ac effaith hynny ar drigolion lleol
5.6 Pryderon ynghylch effaith cau Ysgol Nebo ar y Gymraeg a chynaliadwyedd y gymuned wledig

**Thema 6: Pryderon ynghylch y broses ymgynghori, ystyriaeth o dystiolaeth a gwneud penderfyniadau**

6.1 Pryderon ynghylch didueddrwydd y broses, ystyriaeth o sylwadau'r gymuned ac ansawdd yr Adroddiad Ymgynghori
6.2 Pryderon nad oedd lleisiau'r plant wedi cael digon o sylw yn y broses
6.3 Pryderon ynghylch ystyriaeth o opsiwn amgen y Corff Llywodraethol a gwybodaeth am ddarpariaeth ADY yn y broses benderfynu
6.4 Pryderon ynghylch cydymffurfiaeth â'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig ac ystyriaeth o opsiynau amgen
6.5 Pryderon ynghylch didueddrwydd y broses a'r honiad bod penderfyniad i gau'r ysgol wedi'i wneud ymlaen llaw
6.6 Pryderon ynghylch effaith yr amserlen a'r trafodaethau am gau ar niferoedd dysgwyr a dewisiadau rhieni
6.7 Pryderon ynghylch effaith cau'r ysgol ar ddysgwyr presennol, rhieni a pharhad mewn addysg ffurfiol

**Thema 7: Materion Ariannol a Chynllunio Strategol**

7.1 Pryderon ynghylch y pwyslais ar gost fesul dysgwr wrth asesu gwerth addysgol a chymunedol Ysgol Nebo
7.2 Galwad i adolygu trefniadau cyllido ysgolion ac ystyried buddion cymunedol hirdymor
7.3 Pryderon ynghylch cysondeb penderfyniadau ariannol a'r strategaeth hirdymor ar gyfer darpariaeth addysg
7.4 Pryderon ynghylch diffyg dadansoddiad manwl ac arolwg proffesiynol i gefnogi costau cynnal a chadw'r ysgol
7.5 Pryderon ynghylch diffyg ystyriaeth i fanteision ariannol hirdymor cynllun peilot ADY yn Ysgol Nebo

**Thema 8: Ystyriaethau strategol, gwleidyddol a pholisi ehangach**

8.1 Galwad i ystyried effaith polisïau dalgylch, derbyn, tai a demograffeg ar gynaliadwyedd ysgolion a chymunedau gwledig
8.2 Cyfeiriadau at bolisi Plaid Cymru a'r ymrwymiad i ddiogelu ysgolion bach gwledig a gwasanaethau cymunedol
8.3 Galwad i adolygu trefniadau dalgylch a derbyn er mwyn cynyddu niferoedd mewn ysgolion lleol a chefnogi'r Gymraeg
8.4 Pryderon ynghylch effaith tai gwag, ail gartrefi a pholisïau cynllunio ar gymunedau gwledig a niferoedd dysgwyr
8.5 Pryderon ynghylch blaenoriaethau gwariant, moderneiddio addysg a gwerth parhaus ysgolion bach gwledig
8.6 Sylwadau ynghylch cyfrifoldeb gwleidyddol am benderfyniadau blaenorol

**Thema 9: Dyfodol adeilad Ysgol Nebo, ei ddefnydd cymunedol a'r gofeb ryfel**

9.1 Pryderon ynghylch ôl-ddefnydd yr adeilad a'i bwysigrwydd fel ased cymunedol
9.2 Pryderon ynghylch dyfodol yr adeilad a cholli adnodd cymunedol
9.3 Pryderon ynghylch dyfodol, stiwardiaeth a gwarchodaeth y gofeb ryfel

**Thema 10: Gwrthwynebiad i'r cynnig a galwadau i ailystyried**

10.1 Gwrthwynebiadau ffurfiol i'r cynnig i gau Ysgol Nebo
10.2 Cais i ailystyried neu atal y broses er mwyn asesu'r effeithiau ac ystyried dyfodol ysgolion gwledig
10.3 Galwad i ystyried atebion amgen er mwyn diogelu a chryfhau dyfodol Ysgol Nebo a'r gymuned leol
10.4 Cais i ohirio'r penderfyniad, cynnal asesiadau effaith llawn a rhoi ystyriaeth briodol i safbwyntiau rhanddeiliaid
10.5 Cais i ohirio'r penderfyniad hyd nes cwblhau gwaith pellach ar ddarpariaeth ADY ac ystyried rôl bosibl Ysgol Nebo

6. **RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y 'PENDERFYNIAD A GEISIR'**

6.1 Yn unol â strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd, ystyriwyd nifer o ffactorau wrth ddatblygu a gwerthuso opsiynau ar gyfer dyfodol Ysgol Nebo.

6.2 Cafodd y ffactorau hyn eu hystyried yn fanwl yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 14 Hydref 2025, ac yn y ddogfen ymgynghori statudol wedi hynny. Mae crynodeb o effaith y cynnig ar y ffactorau hyn wedi'i gynnwys yn Atodiad 2, gan ddefnyddio'r data swyddogol diweddaraf oedd ar gael.

6.3 Yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol derbyniwyd gwrthwynebiadau i'r cynnig, a chafodd y rhain eu dadansoddi a'u hystyried yn llawn gan y Cyngor. Mae crynodeb o'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd, ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r materion a godwyd, wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Gwrthwynebu (Atodiad 1).

6.4 Wedi ystyried yr 20 gwrthwynebiad a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol, ynghyd â'r ddeiseb yn cynnwys 358 llofnod a gyflwynwyd gan Gorff Llywodraethol Ysgol Nebo, a'r holl wybodaeth, tystiolaeth ac asesiadau perthnasol, mae'r Awdurdod yn parhau o'r farn mai gweithredu'r cynnig yw'r ymateb mwyaf priodol i'r rhesymau dros ddatblygu'r cynnig, sef yr heriau a amlinellir yn adran 3.4 o'r adroddiad hwn. Ystyrir na fyddai'r opsiynau eraill a gafodd eu hystyried yn ystod y broses, gan gynnwys ffederaleiddio, yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r prif heriau sy'n wynebu'r ysgol. Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, ystyriwyd y ffactorau canlynol wrth ddod i'r casgliad hwn:

### 6.4.1 Ansawdd a Safonau Addysg

Yn ôl adroddiadau diweddaraf Estyn, mae'r ysgol amgen, Ysgol Llanllyfni, yn cynnig addysg o ansawdd a safon yn gyfatebol fan lleiaf i'r hyn a ddarperir yn Ysgol Nebo ar hyn o bryd.

Mae'r ysgol amgen yn cynnig addysg o ansawdd cyfatebol fan lleiaf, gan gynnig mwy o brofiadau i'r dysgwyr gydweithio a chymdeithasu gyda chyfoedion, ac yn galluogi'r dysgwyr i fanteisio ar ystod ehangach o brofiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol.

Er bod dysgwyr Ysgol Nebo yn gwneud cynnydd da mewn amgylchedd dosbarthiadau bach, mae'r Cyngor o'r farn y byddai gwireddu'r cynnig hwn yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr gael eu haddysgu mewn grwpiau o gyfoedion sydd â llawer llai o amrediad oedran a chyfle i wella profiad addysgol a chymdeithasol y dysgwyr yn ddyddiol.

Bydd anghenion unrhyw grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cael eu hasesu a'u gweithredu yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r Awdurdod.

### 6.4.2 Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Byddai dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy addas na'r sefyllfa bresennol. Byddai gweithredu'r cynnig yn arwain at well cysondeb mewn maint dosbarthiadau a lleihau'r ystod oedran o fewn dosbarthiadau ysgolion cynradd yr ardal.

Gyda 45 o lefydd gweigion (ac 1 lle gwag ar gyfer y Meithrin), mae gan Ysgol Llanllyfni ddigon o gapasiti ar gyfer niferoedd presennol Ysgol Nebo, yn ogystal â'r niferoedd a ragwelir am y tair blynedd nesaf.

Mae Ysgol Llanllyfni yn ysgol gymunedol cyfrwng Cymraeg, Categori 3, fel Ysgol Nebo.

### 6.4.3 Adnoddau Addysg a goblygiadau ariannol eraill

Byddai gweithredu'r cynnig yn rhesymoli cost fesul dysgwr mewn ysgolion ac yn lleihau'r amrediad mewn cost y dysgwr ar draws ysgolion cynradd Gwynedd. Amcangyfrifir, yn seiliedig ar gyllideb 2026-27, y byddai gwireddu'r cynnig yn arwain at gost fesul dysgwr o £6,121 yn Ysgol Llanllyfni o'i gymharu â'r £16,066 y dysgwr yn bresennol yn Ysgol Nebo. Y cyfartaledd sirol ar gyfer yr un cyfnod yw £5,998 y dysgwr.

Amcangyfrifir y byddai gwireddu'r cynnig yn arwain at arbediad blynyddol o oddeutu £112,000 mewn costau refeniw, wedi ystyried costau cludiant ychwanegol o hyd at £30,000 y flwyddyn. Mae'r amcangyfrif o'r costau cludiant yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y byddai holl blant dalgylch Ysgol Nebo a fyddai'n gymwys i gael cludiant o dan bolisi cludiant presennol yr Awdurdod yn mynychu Ysgol Llanllyfni.

Byddai'r cynnig hefyd yn dileu'r angen am gyllid ychwanegol o £64,046 a ddyrennir ar hyn o bryd i Ysgol Nebo drwy'r Polisi Gwarchodaeth Lleiafswm Staffio. Byddai dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn ysgol lle mae nifer y dysgwyr a'r rhagolygon yn fwy cadarn a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol, gan wneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau addysgol a chyllidol yr Awdurdod.

### 6.4.4 Ffactorau penodol wrth ystyried cau ysgolion

Yn ystod y broses ymgysylltu a chynnal trafodaethau lleol gyda rhan-ddeiliaid perthnasol yr ysgol, ystyriwyd nifer o opsiynau posibl ar gyfer dyfodol Ysgol Nebo, gan gynnwys ffedereiddio. Bu i'r opsiynau hyn gael eu hasesu a'u cloriannu yn erbyn ffactorau Strategaeth "Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd". Yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, cyflwynwyd opsiynau ychwanegol gan randdeiliaid, ac fe'u hystyriwyd fel rhan o'r broses o lunio'r Adroddiad Ymgynghori. O ganlyniad, diweddarwyd y gwerthusiad opsiynau i adlewyrchu'r opsiynau ychwanegol a gyflwynwyd. Cyflwynwyd y gwerthusiad opsiynau hwn o'r Adroddiad Ymgynghori a'r ddogfennaeth atodol (Gweler Atodiad 5).

Wedi cynnal y cyfnod gwrthwynebu, mae'r Awdurdod yn parhau i fod o'r farn mai gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Nebo yw'r ymateb mwyaf priodol i'r rhesymau a nodwyd dros lunio'r cynnig, sef yr heriau a amlinellwyd yn adran 5 o'r Ddogfen Ymgynghori Statudol (Atodiad 6). Daeth y gwerthusiad i'r casgliad na fyddai'r un o'r opsiynau eraill a ystyriwyd yn ystod y broses, gan gynnwys ffedereiddio, yn darparu ateb cynaliadwy i'r heriau hynny. Wrth lunio a gwerthuso'r opsiynau, rhoddwyd sylw i'r ffactorau penodol wrth ystyried cau ysgol fel a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Ceir crynodeb o'r ystyriaeth a roddwyd i'r ffactorau hyn isod:

**a. A ellid ystyried sefydlu ysgolion â mwy nag un safle fel ffordd o gadw adeiladau, neu'r rhesymau dros beidio â dewis yr opsiwn hwn.**

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r posibilrwydd o sefydlu ysgol aml-safle fel rhan o'r broses gwerthuso opsiynau. Daeth y gwerthusiad i'r casgliad na fyddai'r model ysgol aml-safle yn ymateb yn ddigonol i'r heriau sylfaenol sy'n wynebu Ysgol Nebo. Nid oes tystiolaeth y byddai'r trefniant yn arwain at gynnydd ystyrlon mewn niferoedd dysgwyr nac at newid yn y patrwm presennol o lefydd gweigion uchel ar safle Ysgol Nebo. O ganlyniad, byddai'r trefniadaeth o ddosbarthiadau bach, y rhagolygon niferoedd isel, a'r heriau ariannol cysylltiedig yn parhau, heb sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth. Ar sail y gwerthusiad, daethpwyd i'r casgliad nad oedd yr opsiwn yma'n mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r ysgol a nodir yn adran 3.4 uchod.

**b. A ellid ystyried posibiliadau amgen heblaw cau'r ysgol, megis clystyru, cydweithredu neu ffedereiddio ag ysgolion eraill, neu'r rhesymau dros beidio ag ystyried y rhain fel opsiwn amgen yn lle cau'r ysgol.**

Ystyriwyd ystod eang o opsiynau amgen fel rhan o'r broses, gan gynnwys ffederaleiddio ag ysgol gyfagos, ffederaleiddio ynghyd â sefydlu uned arbenigol, sefydlu uned anghenion dysgu ychwanegol, sefydlu canolfan iaith, a datblygu darpariaethau addysgol arbenigol eraill ar y safle. Daeth y gwerthusiad i'r casgliad nad oedd tystiolaeth glir y byddai'r opsiynau hyn yn cynyddu niferoedd y dysgwyr nac yn mynd i'r afael â'r heriau sy'n ymwneud â dosbarthiadau bychain, amrediad oedran eang, llefydd gweigion sylweddol a chynaliadwyedd ariannol yr ysgol. Ar sail y gwerthusiad, daethpwyd i'r casgliad nad oedd yr opsiynau hyn yn mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r ysgol, fel y'u nodir yn adran 3.4 uchod.

**c. A ellid archwilio'r posibiliadau o wneud defnydd llawnach o'r adeiladau presennol fel adnodd cymunedol neu addysgol.**

Rhoddwyd ystyriaeth i ddefnyddio'r ysgol fel canolfan gymunedol ac i gyfleoedd ar gyfer cydleoli gwasanaethau eraill, megis canolfan neu uned iaith ar y safle. Daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r un o'r opsiynau hyn yn cynnig datrysiad cynaliadwy gan nad oedd tystiolaeth y byddent yn arwain at gynnydd yn nifer y dysgwyr nac yn mynd i'r afael â'r heriau sy'n ymwneud â llefydd gweigion sylweddol, dosbarthiadau bychain, amrediad oedran eang a chynaliadwyedd ariannol yr ysgol. Ystyriwyd hefyd opsiynau a fyddai'n cynnwys darparu gwasanaethau neu ddarpariaeth arbenigol ar y safle, ond ni ddaethpwyd i'r casgliad y byddai'r rhain yn mynd i'r afael â'r prif heriau a nodwyd.

**ch. Effaith gyffredinol cau'r ysgol ar y gymuned leol (gan gynnwys colli cyfleusterau yn yr ysgol a ddefnyddir gan y gymuned leol).**

Cynhaliwyd Asesiad Effaith Gymunedol ar y cynnig, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion. Diweddarwyd yr asesiad yn dilyn diwedd y cyfnod ymgynghori statudol ac fe'i hadolygwyd a'i ddiweddaru ymhellach yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu statudol er mwyn ystyried y wybodaeth a'r sylwadau ychwanegol a ddaeth i law yn ystod y broses. Gellir gweld yr asesiad llawn yn Atodiad 3.

Bu i ymatebwyr nodi yn ystod yr ymgynghoriad a'r cyfnod gwrthwynebu fod adeilad yr ysgol a'r ystafell gymunedol yn cael eu defnyddio'n rheolaidd ar gyfer ystod o weithgareddau cymunedol, gan gynnwys clwb gwau, nosweithiau cymdeithasol, clwb garddio, dosbarthiadau Cymraeg, cyfarfodydd cymdeithasol dros baned, cyfarfodydd misol y Pwyllgor Ardal a defnydd fel gorsaf bleidleisio. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch effaith bosibl colli'r ysgol fel canolbwynt cymunedol ar gydlyniant, bywiogrwydd a chynaliadwyedd y gymuned.

Dengys yr asesiad effaith y byddai peth effaith negyddol debygol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Nebo, gan y byddai hyn yn arwain at golli ysgol o fewn cymuned Nebo fel canolbwynt cymunedol. Cydnabyddir y pryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad a’r cyfnod gwrthwynebu ynghylch goblygiadau hyn ar fywiogrwydd y gymuned; fodd bynnag, nodir bod canran sylweddol o blant y dalgylch (78%) eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Llanllyfni (44%), gan awgrymu bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol â chymunedau cyfagos, gan gynnwys cymuned Llanllyfni, eisoes yn bodoli. Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda chau Ysgol Nebo, byddai'r Cyngor yn ceisio lliniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog a chefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nebo a'r ysgol amgen, hyrwyddo cydweithio cymunedol lle bo hynny'n briodol, a sicrhau bod trigolion a theuluoedd yn ymwybodol o gyfleoedd, cyfleusterau a gweithgareddau'r ysgol amgen. Yn ogystal, nodir pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol yn cael ei wneud, y byddai Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod yn gweithredu fel fframwaith i ymgymryd â thrafodaethau pellach ynghylch opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny'n briodol, er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned leol.

**d. Sut y gellid cefnogi'r rhieni a'r dysgwyr i fanteisio ar yr ysgol amgen ac unrhyw gyfleusterau y gall eu cynnig.**

Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda rhieni, gofalwyr ac Ysgol Llanllyfni er mwyn sicrhau trefniadau trosglwyddo priodol i'r dysgwyr. Nododd y gwerthusiad opsiynau fod Ysgol Llanllyfni yn cynnig dosbarthiadau o faint mwy addas ac ystod ehangach o gyfleoedd cymdeithasol ac addysgol i'r dysgwyr. Pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu, byddai cefnogaeth briodol yn cael ei darparu i sicrhau bod y trosglwyddo yn digwydd mor esmwyth â phosibl ac y gall dysgwyr fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd sydd ar gael yn yr ysgol amgen

## 7. RHAGDYBIAETH YN ERBYN CAU YSGOL WLEDIG

7.1 Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 yn sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig. Nid yw hyn yn golygu na ellir cau ysgol wledig, ond bod rhaid dangos bod yr achos dros ei chau yn gryf a bod pob opsiwn rhesymol arall wedi’u hystyried yn gydwybodol, gan gynnwys ffedereiddio. Mae Ysgol Nebo wedi ei dynodi yn ysgol wledig at ddibenion y Cod ac felly mae'r gofynion ychwanegol hyn yn berthnasol i'r cynnig.

7.2 Yn ogystal â'r ffactorau sy'n berthnasol wrth ddatblygu unrhyw gynnig trefniadaeth ysgol, mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynnal asesiadau penodol mewn perthynas â chynigion i gau ysgolion gwledig. Cynhaliwyd ac adolygwyd nifer o asesiadau effaith mewn perthynas â'r cynnig hwn, gan gynnwys:

- Asesiad o'r Effaith Debygol ar Drefniadau Teithio
- Asesiad o'r Effaith Debygol ar y Gymuned
- Asesiad o'r Effaith Debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg

7.3 Yn unol â gofynion y Cod, cynhaliwyd asesiadau effaith pellach o'r cynnig, yr opsiynau rhesymol amgen a nodwyd yn y Ddogfen Ymgynghori, ynghyd â'r opsiynau ychwanegol a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol ac a ystyriwyd fel rhan o'r Adroddiad Ymgynghori. Wrth gynnal yr asesiadau hyn, rhoddwyd ystyriaeth i unrhyw wybodaeth ychwanegol berthnasol a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad, a diweddarwyd yr asesiadau lle bo'n briodol er mwyn adlewyrchu'r wybodaeth hon. Ni arweiniodd yr wybodaeth ychwanegol hon at newid i gasgliadau'r asesiadau effaith. Ceir crynodeb o'r prif ganfyddiadau isod.

7.4 Nodir yng nghasgliadau'r asesiad o'r effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg fod y ddarpariaeth addysgol a gynigir yn Ysgol Llanllyfni o safon gyfatebol fan lleiaf i'r hyn a ddarperir yn Ysgol Nebo ar hyn o bryd. Mae'r asesiad yn nodi y byddai gweithredu'r cynnig yn rhoi mwy o gyfleoedd i ddysgwyr gael eu haddysgu mewn grwpiau oed perthnasol gyda'u cyfoedion ac i fanteisio ar ystod ehangach o brofiadau addysgol a chymdeithasol. O ganlyniad, daw'r asesiad i'r casgliad mai niwtral neu rannol gadarnhaol fyddai effaith debygol y cynnig ar ansawdd a safonau addysg.

7.5 Daeth yr asesiad o'r effaith debygol ar drefniadau teithio i'r casgliad y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar drefniadau teithio presennol rhai dysgwyr Ysgol Nebo, gan y byddai angen iddynt deithio ymhellach i'r ysgol. Mae Ysgol Llanllyfni wedi ei lleoli 1.6 milltir o Ysgol Nebo. Fodd bynnag, nid yw'r asesiad yn rhagweld y byddai unrhyw ddysgwr o ddalgylch Nebo yn gorfod teithio pellter afresymol i'r ysgol nac yn defnyddio llwybrau a ystyrir yn beryglus, a byddai cludiant ysgol yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Cyngor Gwynedd lle bo'n berthnasol. Mae'r asesiad hefyd yn nodi y byddai'r cynnig yn arwain at gostau cludiant ychwanegol i'r Awdurdod o hyd at £17,000 y flwyddyn ar sail y niferoedd presennol, a hyd at £30,000 y flwyddyn pe byddai cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n gymwys am gludiant ysgol.

7.6 Daeth yr asesiad o'r effaith debygol ar y gymuned i'r casgliad y byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith negyddol ar gymuned Nebo, gan y byddai'n arwain at golli'r ysgol fel adnodd a chanolbwynt cymunedol lleol. Cydnabyddir y pryderon a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad a'r cyfnod gwrthwynebu ynghylch yr effaith bosibl ar fywiogrwydd a chynaliadwyedd y gymuned yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r asesiad hefyd yn nodi bod canran sylweddol o blant y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Llanllyfni, ac felly bod cysylltiadau addysgol a chymunedol â'r ardal gyfagos eisoes wedi'u sefydlu. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r Cyngor yn ceisio lliniaru'r effaith ar y gymuned drwy gefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nebo a chymuned yr ysgol amgen, ac ystyried opsiynau ôl-ddefnydd priodol ar gyfer safle'r ysgol yn unol â pholisïau'r Awdurdod.

7.7 Mae'r Adran Addysg yn parhau o'r farn, wedi cynnal y cyfnod gwrthwynebu ac ystyried yr holl wybodaeth berthnasol a gyflwynwyd yn ystod y broses statudol, na fyddai'r un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd, gan gynnwys ffederaleiddio a'r opsiynau ychwanegol a gyflwynwyd gan randdeiliaid, yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r prif heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo. Mae'r heriau hyn yn cynnwys niferoedd isel o ddysgwyr dros gyfnod estynedig, canran uchel o leoedd gweigion, cost uchel fesul dysgwr o gymharu â chyfartaledd y sir, a rhagamcanion sy'n dangos y bydd niferoedd dysgwyr yn parhau'n isel yn y dyfodol. Yn ogystal, ni fyddai'r opsiynau amgen a ystyriwyd yn cynyddu nifer y dysgwyr nac yn darparu ateb cynaliadwy i'r heriau demograffig a gweithredol sy'n wynebu'r ysgol yn y tymor canolig a'r tymor hir.

## 8. YSTYRIAETHAU PELLACH

8.1 Yn ogystal â'r asesiadau a gynhaliwyd yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion mewn perthynas â'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgol wledig, cynhaliwyd nifer o asesiadau effaith eraill fel rhan o'r broses statudol. Diweddarwyd yr Asesiad Effaith ar y Gymuned, yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg, yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad Effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dilyn yr ymgynghoriad statudol ac fe'u hadolygwyd ymhellach yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu statudol er mwyn ystyried unrhyw wybodaeth a materion ychwanegol

a godwyd yn ystod y broses. Lle bo’n briodol, diweddarwyd yr asesiadau hyn i adlewyrchu’r wybodaeth ychwanegol a dderbyniwyd. Ystyrir bod canfyddiadau’r asesiadau yn parhau’n gyfredol ac yn berthnasol gan nad oedd unrhyw wybodaeth ychwanegol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu yn newid y casgliadau a ddaethpwyd iddynt. Cynhwysir yr asesiadau hyn yn Atodiad 3 (Asesiadau Effaith) a chrynhoir eu prif gasgliadau isod.

8.2 Asesiad effaith ar yr Iaith Gymraeg

8.3 Cynhaliwyd asesiad o effaith y cynnig ar yr Iaith Gymraeg, ac fe adolygwyd yr asesiad yn dilyn yr ymgynghoriad statudol. Gellir gweld yr asesiad llawn yn Atodiad 3.

8.4 Yn ystod yr ymgynghoriad mynegwyd pryderon ynghylch yr effaith y gallai cau Ysgol Nebo ei chael ar ddefnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref. Pwysleisiodd nifer fawr o ymatebwyr rôl yr ysgol fel canolbwynt cymdeithasol a diwylliannol sy’n cefnogi defnydd naturiol, bob dydd o’r Gymraeg, nid yn unig ymhlith dysgwyr ond hefyd ymysg teuluoedd a thrigolion ehangach, gan gynnwys siaradwyr newydd a phobl nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl. Mynegwyd y farn y gallai colli’r ysgol arwain at lai o gyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio’r Gymraeg yn y gymuned, gwanhau trosglwyddiad rhyng-genedlaethol yr iaith, a lleihau atyniad y pentref i deuluoedd Cymraeg eu hiaith yn y dyfodol.

8.5 Mae’r Cyngor yn cydnabod bod y pryderon hyn wedi’u hailadrodd a’u hatgyfnerthu yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol, yn enwedig mewn perthynas â rôl Ysgol Nebo wrth gynnal y Gymraeg fel iaith gymunedol fyw ac â'r farn a fynegwyd gan rai gwrthwynebwyr y gallai’r cynnig weithio’n groes i amcanion Cymraeg 2050 o gynyddu defnydd dyddiol a chymunedol o’r Gymraeg.

8.6 Mae’r Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch rôl Ysgol Nebo mewn cefnogi defnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref, ac yn derbyn bod y sylwadau’n tynnu sylw at effaith andwyol bosibl ar fywiogrwydd ieithyddol lleol y tu allan i’r ddarpariaeth addysgol ffurfiol.

8.7 Fodd bynnag, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, barn y Cyngor yw nad yw’r cynnig arfaethedig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg Gymraeg na chyfleoedd ieithyddol dysgwyr, am y rhesymau canlynol:

- Mae data CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 56% o ddysgwyr Ysgol Nebo yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 68% o ddysgwyr Ysgol Llanllyfni.
- Mae’r cynnig i gau Ysgol Nebo a chynnig lle i’r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Llanllyfni) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.
- Rhagwelir y byddai’r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o’r un grŵp oedran, rhagwelir bydd y cynnig arfaethedig yn cryfhau’r cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o’u cyfoedion.

8.8 Yn y cyd-destun addysgol, ar sail yr uchod, o weithredu’r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Nebo ddefnyddio’r Gymraeg yn anffurfiol gyda’u cyfoedion tu mewn a thu allan i’r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a’r defnydd anffurfiol o’r iaith yn gryfach.

8.9 Ar yr un pryd, gan ystyried sylwadau’r ymgynghoriad, a’r cyfnod gwrthwynebu mae’r Cyngor yn cydnabod y gallai’r cynnig i gau Ysgol Nebo arwain at effaith negyddol bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd fel iaith gymunedol y tu allan i’r cyd-destun addysgol; fodd bynnag, nodir y gellid ystyried mesurau lliniaru drwy hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nebo yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol amgen, yn ogystal ag ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy’n cael eu cynnal yno ar hyn o bryd.

8.10 Wrth ddod i’r casgliad hwn, mae’r Cyngor wedi ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol a’r cyfnod gwrthwynebu statudol. Er y cydnabyddir y gallai’r cynnig gael effaith negyddol bosibl ar rai agweddau o ddefnydd cymunedol y Gymraeg o fewn Nebo, barn y Cyngor yw nad yw’r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos y byddai’r cynnig yn cael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg Gymraeg nac ar gyfleoedd dysgwyr i ddefnyddio a datblygu’r Gymraeg o fewn y ddarpariaeth addysgol.

8.11 Asesiad effaith ar gydraddoldeb

8.12 Cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb ar y cynnig arfaethedig, ac fe adolygwyd yr asesiad yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, fe'i hadolygwyd eto yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu statudol. Gellir gweld yr asesiad llawn yn Atodiad 3.

8.13 Mae'r asesiad yn rhoi sylw penodol i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Mae'r asesiad yn nodi'r sefyllfa bresennol ac yn dangos fod polisïau a threfniadau mewn lle a fyddai'n sicrhau bod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal.

8.14 Fel y nodir yn yr asesiad diweddaraf, yn ystod yr ymgynghoriad statudol, a'r cyfnod gwrthwynebu, nodwyd rhai pryderon penodol o safbwynt cydraddoldeb, yn enwedig ynghylch plant bregus, dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, a theuluoedd sy'n profi anfantais economaidd gymdeithasol. Mynegwyd pryder y gallai symud rhai dysgwyr i ysgol fwy leihau'r lefel o gefnogaeth bersonol sydd ar gael iddynt, ac y gallai pellter teithio, costau cludiant neu ddiffyg mynediad at gludiant preifat effeithio'n anghymesur ar rai teuluoedd. Codwyd hefyd effaith bosibl ar bobl hŷn a chydlyniant cymunedol, gan nodi bod yr ysgol yn darparu lleoliad hygyrch ar gyfer cymdeithasu a chefnogi llesiant.

8.15 Nodir yn yr asesiad fod y Cyngor yn cydnabod y materion a godwyd ac yn pwysleisio bod polisïau cydraddoldeb a chynhwysiant yn weithredol yn y ddarpariaeth bresennol ac yn Ysgol Llanllyfni. At hynny, nodir fod y Cyngor yn ymrwymo i roi blaenoriaeth i anghenion unigol, gan gynnwys i blant bregus a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol pe byddai'r ysgol yn cau. O ran y pryderon ynghylch defnydd cymunedol o'r Gymraeg, nodir y byddai mesurau lliniaru yn cael eu hystyried, gan gynnwys hyrwyddo cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nebo a'r ysgol amgen drwy weithgareddau cymunedol, a thrwy ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl ddefnydd adeilad yr ysgol er mwyn cefnogi defnydd parhaus o'r Gymraeg yn y gymuned leol, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.

8.16 Wedi pwyso a mesur y ffactorau perthnasol, gan gynnwys yr ymatebion i'r ymgynghoriad statudol, a'r cyfnod gwrthwynebu, mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhai ymatebwyr wedi nodi effaith negyddol bosibl ar rai grwpiau gwarchodedig, gan gynnwys dysgwyr bregus, dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, teuluoedd sy'n profi anfantais economaidd gymdeithasol, a chydlyniant cymunedol. Nodwyd hefyd bryderon penodol ynghylch effaith bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd anffurfiol y tu allan i'r cyd-destun addysgol. Fodd bynnag, ar sail yr asesiad cydraddoldeb cyffredinol, y dystiolaeth a nodir yn yr asesiadau effaith cysylltiedig, a'r mesurau lliniaru a ddisgrifir, mae'r Cyngor yn parhau o'r farn nad yw'r cynnig yn debygol o arwain at effaith negyddol arwyddocaol ar nodweddion cydraddoldeb. Nodir fod polisïau a gweithdrefnau eisoes mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol nac aflonyddu, a bod anghenion unigol yn cael eu hystyried yn briodol.

8.17 Er y cydnabyddir y bydd effaith negyddol bosib yn achos anfantais economaidd-gymdeithasol pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, mae'r Cyngor yn parhau o'r farn y byddai gweithredu'r cynnig yn lleihau'r anghyfartaledd yn achos anfantais economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau bod y dysgwyr yn cael mwy o brofiadau a mynediad at ragor o wasanaethau a gweithgareddau yn yr ysgol amgen, darpariaeth addysg ehangach, cyfleoedd cymdeithasol ac addysgol ychwanegol, a mynediad at arbenigedd a chefnogaeth estynedig.

8.18 Drwy weithredu'r cynnig, byddai dysgwyr Ysgol Nebo yn cael gwell amgylchedd dysgu a byddai'r dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol. Yn ogystal, nodir y byddai dysgwyr Ysgol Nebo yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgol amgen lle mae'r Gymraeg yn gryf, gyda rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn anffurfiol gyda chyfoedion, gan gryfhau bywiogrwydd a defnydd naturiol o'r Gymraeg ymhlith dysgwyr.

8.19 Byddai'r Cyngor yn dilyn prosesau arferol trwy gefnogi a monitro, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth pob ysgol â'r nodweddion cydraddoldeb, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.

8.20 Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

8.21 Cynhaliwyd asesiad yn erbyn y Ddeddf Llesiant ar y cynnig a diweddarwyd yr asesiad wedi i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, fe'i hadolygwyd eto yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu statudol. Ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y cynnig arfaethedig yn cwrdd â'r gofynion. Gellir gweld yr asesiad llawn yn Atodiad 3.

8.22 Yn yr asesiad diweddaraf, nodir fod yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r cyfnod gwrthwynebu yn mynegi pryderon penodol ynghylch effaith y cynnig ar blant bregus a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, ar lesiant teuluoedd sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, ac ar fywiogrwydd ieithyddol a chymunedol y pentref.

8.23 Cydnabyddir, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig arfaethedig hwn, y byddai'r cynnig arfaethedig yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Nebo. Fodd bynnag, nodir bod canran sylweddol o blant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol (78%) eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Llanllyfni (44%), sy'n awgrymu bod cysylltiadau â chymunedau cyfagos, gan gynnwys cymuned Llanllyfni, eisoes yn bodoli. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Llanllyfni, pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu. Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Llanllyfni yn cynnwys cymuned Nebo lle'n briodol.

8.24 Yn ogystal, fel nodir yn yr asesiad, pe byddai Ysgol Nebo yn cau, byddai'r awdurdod a'r ysgol amgen yn cydweithio'n agos â'r ysgol sy'n cau, gyda'r dysgwyr a'u teuluoedd, i sicrhau trosglwyddiad esmwyth ac i gefnogi'r dysgwyr wrth ymgartrefu yn eu hysgolion newydd. Mae'r Cyngor yn ymrwymo i sicrhau bod unrhyw drefniadau pontio yn rhoi blaenoriaeth i anghenion unigol, gan gynnwys i blant bregus a dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, pe byddai'r ysgol yn cau.

8.25 Rhagwelir y byddai'r cynnig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd i gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.

8.26 Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011)

8.27 Yn adeiladu ar ganfyddiadau'r Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg a'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a amlinellir uchod, mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y broses statudol gyfan mewn perthynas ag adolygu dyfodol Ysgol Nebo wedi'i chynnal yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg 88–93 o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn unol â Safonau 88, 89 a 90, rhoddwyd ystyriaeth gydwybodol i'r effeithiau posibl y gallai'r penderfyniad polisi eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, gan gynnwys ystyried yr effeithiau cadarnhaol ac andwyol posibl, sut y gellid llunio neu addasu'r cynnig er mwyn sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol, a sut y gellid lleihau unrhyw effeithiau andwyol posibl. Yn ogystal, yn unol â Safonau 91, 92 a 93, ystyriwyd a cheisiwyd barn drwy'r broses ymgynghori statudol ynghylch yr effeithiau ieithyddol hyn, gan gynnwys barn ar sut y gellid llunio neu addasu'r cynnig er mwyn cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau andwyol ar y Gymraeg. Cefnogwyd y gofynion hyn drwy gynnal Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg, ynghyd ag asesiadau effaith cysylltiedig, gan gynnwys yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a nodir bod yr asesiadau hyn wedi'u hadolygu a'u diweddaru yn dilyn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol ac fe'u hadolygwyd ymhellach yng ngoleuni'r gwrthwynebiadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol. Ni arweiniodd y gwrthwynebiadau hyn at newid i'r casgliadau a ddaethpwyd iddynt.

## 9. CASGLIAD

9.1 Wedi ystyried yn fanwl yr 20 gwrthwynebiad, y ddeiseb gyda 358 o lofnodion a'r holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol, mae'r Cyngor yn parhau i fod o'r farn mai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yw'r ymateb mwyaf priodol i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol.

9.2 Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan wrthwynebwyr, yn enwedig mewn perthynas â rôl yr ysgol yn y gymuned leol, defnydd cymunedol o'r Gymraeg a'r effaith bosibl ar ddyfodol y gymuned. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r broses statudol yn dangos bod Ysgol Nebo yn wynebu heriau sylweddol nad ydynt yn debygol o gael eu datrys heb newid sylfaenol i'r ddarpariaeth.

9.3 Wrth ddod i'r casgliad hwn, rhoddwyd ystyriaeth i'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol a'r cyfnod gwrthwynebu statudol, y Strategaeth 'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd', gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, y rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig, yr opsiynau amgen a ystyriwyd, ynghyd â chanfyddiadau'r asesiadau effaith perthnasol.

9.4 Ystyrir bod y cynnig i gau Ysgol Nebo yn mynd i'r afael â'r heriau hyn drwy:

- Ymateb i'r her o niferoedd dysgwyr isel yn Ysgol Nebo, ynghyd â rhagolygon sy'n parhau'n isel, a'r ganran uchel o leoedd gwag;
- Cynnig dosbarthiadau o faint ac ystod oedran mwy addas;
- Gwella cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu a chydweithio'n ddyddiol â chyfoedion, mewn amgylchedd addysgol gyda mwy o ddysgwyr o'r un oedran;
- Lleihau'r gost fesul dysgwr ar gyfer holl ddysgwyr y Sir

9.5 Ar sail yr holl wybodaeth berthnasol a ystyriwyd, gan gynnwys y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol, a'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol, y gwerthusiad o'r cynnig a'r opsiynau amgen, ynghyd â chyfeiriad strategol y Cyngor, mae'r Cyngor yn cadarnhau ei fod yn parhau o'r farn mai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yw'r ymateb mwyaf priodol i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol (fel a nodir yn adran 3.4), ac felly'n parhau i'w argymell fel y modd mwyaf addas o fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r ysgol. O ganlyniad, argymhellir fod y Cabinet yn cadarnhau'r cynnig.

**10. ARGYMHELLIAD**

10.1 Yn dilyn ystyried y gwrthwynebiadau statudol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol, ynghyd â'r holl wybodaeth berthnasol arall, argymhellir i'r Cabinet gymeradwyo'n derfynol y cynnig a roddwyd drwy hysbysiad statudol, sef cau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lleoedd i'r dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen, yn unol ag Adran 53 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

**11. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

11.1 Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu'n derfynol i gadarnhau'r cynnig, ac os na fyddai'r cynnig yn cael ei at-gyfeirio, amlinellir y camau nesaf a'r amserlen isod:

| | |
|---|---|
| **Tachwedd – Rhagfyr 2026** | Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r ysgolion, y dysgwyr, y rhieni/gofalwyr a'r staff er mwyn cynllunio a gweithredu'r trefniadau trosiannol angenrheidiol. Byddai'r trefniadau hyn yn cynnwys cefnogi dysgwyr drwy'r cyfnod pontio i'r ysgol amgen , ynghyd â mynd i'r afael â materion cyflogaeth a all godi o ganlyniad i weithredu'r cynnig, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol y Cyngor. |
| **31 Rhagfyr 2026** | **Gweithredu'r cynnig:** Ysgol Nebo yn cau yn swyddogol, yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet. |

11.2 Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet, yn unol ag adran 54 o Ddeddf 2013, o fewn 28 diwrnod i benderfyniad y Cabinet, gall y cyrff canlynol gyfeirio'r cynnig i Weinidogion Cymru i benderfynu:

i. Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;
ii. Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni;
iii. Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion;
iv. Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion;
v. Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arni.

11.3 Bydd angen i'r corff sy'n at-gyfeirio nodi pam eu bod yn credu bod y penderfyniad a wnaeth yr awdurdod lleol yn anghywir. Bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu a ydy'r cynnig yn effeithio ar y cyrff ac a oes angen iddynt ystyried y cynnig.

**12.ATODIADAU**

**Atodiad 1:** Adroddiad Gwrthwynebu
**Atodiad 2**: Cymhariaeth o effaith y cynnig ar ffactorau'r strategaeth
**Atodiad 3:** Asesiadau Effaith
**Atodiad 4:** Hysbysiad Statudol
**Atodiad 5:** Adroddiad Ymgynghori - Rhaglen ar gyfer Y Cabinet 19/5/26 (Eitem 6)
**Atodiad 6:** Dogfen Ymgynghori Statudol
**Atodiad 7:** Sylwadau'r Aelod Lleol

---

**13. Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

*"Mae'r adroddiad yma wedi bod yn destun cyngor gan y Gwasanaethau Cyfreithiol. Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."*

**Y Pennaeth Cyllid:**

*"Nodwyd mewn adroddiadau blaenorol nad yw sefyllfa Ysgol Nebo yn gynaliadwy yn ariannol, o ystyried y llefydd gwag yn yr ysgol. Tra'n parchu barn yr ymatebion, nid yw'r sefyllfa wedi newid o safbwynt cynaladwyedd hir-dymor sylfaenol. Rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir."*